
Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain y gwaith o gefnogi sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol, archwilio a datrys problemau mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc ac eraill. Mae hyn yn cynnwys hwyluso'r gwaith o asesu a chefnogi dysgu mathemategol, archwilio a datrys problemau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. sicrhau bod canllawiau neu fframweithiau cwricwlwm ar gyfer dysgu mathemategol yn cael eu nodi a'u dilyn
2. arwain y gwaith o ddatblygu systemau i arsylwi ar ddysgu mathemategol plant neu bobl ifanc drwy chwarae a phrofiadau yn y byd go iawn
3. cefnogi eraill i gydnabod ac ymateb i blant neu bobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol
4. modelu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn drwy gynnwys plant neu bobl ifanc ac eraill mewn asesiadau o ddysgu mathemategol
5. goruchwyllo'r defnydd o arsylwadau ac adborth i asesu dysgu mathemategol mewn cyd-destunau ystyrlon
6. sicrhau bod arsylwadau'n cydnabod yr ystod lawn o sgiliau mathemategol, gan gynnwys sgiliau datrys problemau, adnabod patrymau, a rhesymu gofodol
7. arwain y gwaith o ddatblygu profiadau dysgu mathemategol sy'n adeiladu ar ddiddordebau a chwilfrydedd naturiol plant neu bobl ifanc
8. hybu a gwreiddio'r defnydd o ddyfeisiau ac adnoddau digidol i wella sgiliau meddwl a datrys problemau mathemategol
9. cefnogi eraill i ddewis adnoddau o ansawdd uchel sy'n addas yn ddatblygiadol i gefnogi dysgu mathemategol
10. modelu ac annog rhyngweithiadau sensitif ac ymatebol sy'n meithrin hyder a chwilfrydedd mathemategol
11. sicrhau bod gan blant neu bobl ifanc fynediad cyfartal at brofiadau dysgu mathemategol
12. creu amgylcheddau lle mae plant neu bobl ifanc yn teimlo'n hyderus i archwilio a chymryd rhan mewn ymarferion meddwl yn fathemategol
13. datblygu systemau sy'n monitro ac yn gwerthuso sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol
14. gweithio ar y cyd ag eraill i werthuso a yw'r ddarpariaeth ddysgu fathemategol yn effeithiol ac yn ymatebol i anghenion plant neu bobl ifanc
15. adnabod meysydd i'w gwella ac arwain dysgu proffesiynol parhaus o ran datblygiad mathemategol
16. arwain ymarfer myfyriol drwy gefnogi eraill i ddadansoddi a gwella eu dull o ddysgu mathemategol

-
17. cefnogi eraill i gael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â dysgu mathemategol
 18. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o gefnogi sgiliau plant a phobl ifanc o ran dysgu mathemategol, archwilio a datrys problemau
 19. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain y gwaith o gefnogi sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol, archwilio a datrys problemau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut mae cefnogi plant neu bobl ifanc â'r newidiadau y gallant eu profi wrth ymgymryd â dysgu mathemategol
2. dulliau cenedlaethol a lleol o ddysgu mathemategol a sut maent yn dylanwadu ar asesiadau a gwaith cynllunio'r cwricwlwm
3. pwysigrwydd defnyddio data dilys a dibynadwy wrth asesu sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol
4. prosesau eich gweithle ar gyfer arsylwi ac asesu sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol
5. sut mae prosesau asesu mewnol yn cysylltu â fframweithiau cwricwlwm ac asesu ehangach
6. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu datblygiad mathemategol plant neu bobl ifanc
7. pryd a sut mae defnyddio gwahanol fathau o arsylwadau i gefnogi dysgu mathemategol
8. y dylanwadau ar ddysgu mathemategol a sut mae ymchwil yn llywio ymarfer effeithiol
9. patrymau nodweddiadol dysgu mathemategol a datrys problemau o'r crud a sut mae cefnogi cynnydd plant neu bobl ifanc
10. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol
11. dylanwad diwylliant a chefnidir ar ddatblygiad mathemategol plant neu bobl ifanc
12. rôl chwarae o ran datblygu sgiliau meddwl yn fathemategol a sut i integreiddio dulliau sy'n seiliedig ar chwarae yn effeithiol
13. sut mae addasu eich ymarfer i gefnogi sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol pan fydd ganddynt alluoedd, anghenion a dewisiadau gwahanol
14. y mathau o adnoddau, profiadau a dulliau sy'n cefnogi dysgu mathemategol orau, gan gynnwys defnyddio technoleg ddigidol
15. pwysigrwydd cynnwys pobl eraill o fewn dysgu mathemategol plant neu bobl ifanc, a sut i feithrin partneriaethau effeithiol
16. sut mae cynnwys plant neu bobl ifanc yn y gwaith o asesu a llunio eu dysgu mathemategol eu hunain mewn ffyrdd sy'n addas i'w hoedran a'u hanghenion

17. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol
18. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol yn ystod datblygiad mathemategol
19. sut mae monitro a gwerthuso darpariaeth ddysgu fathemategol a chynllunio ar gyfer gwelliant parhaus
20. sut mae myfyrio ar eich rôl arwain o ran cefnogi dysgu mathemategol a sicrhau bod arferion gorau yn cael eu dilyn
21. sut mae cefnogi a datblygu sgiliau pobl eraill i sicrhau profiadau dysgu mathemategol o ansawdd uchel
22. sut mae cefnogi eraill i fod yn hyderus wrth ddefnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i wella sgiliau datrys problemau a meddwl yn fathemategol
23. sut mae creu amgylcheddau dysgu sy'n annog hyder, chwilfrydedd ac ymgysylltiad wrth feddwl yn fathemategol
24. sut mae dadansoddi a defnyddio data arsylwi i lywio'r gwaith cynllunio a gwella darpariaeth ddysgu fathemategol
25. sut mae ymgorffori dysgu mathemategol ar draws gwahanol rannau o'r cwricwlwm i'w wneud yn ystyrlon ac yn berthnasol
26. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o gefnogi sgiliau plant a phobl ifanc o ran dysgu mathemategol, archwilio a datrys problemau
27. theorïau sy'n berthnasol i arwain y gwaith o gefnogi sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol, archwilio a datrys problemau
28. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y gwaith o gefnogi sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol, archwilio a datrys problemau
29. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol, archwilio a datrys problemau
30. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain y gwaith o gefnogi sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol, archwilio a datrys problemau, a sut i fynd i'r afael â hyn
31. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi sgiliau plant neu bobl ifanc o ran dysgu mathemategol, archwilio a datrys problemau

Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD432

Arwain y gwaith o gefnogi sgiliau plant a phobl ifanc o ran dysgu mathemategol, archwilio a datrys problemau



Datblygwyd gan	Skills for Care & Development
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	31 Ion 2026
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Ion 2031
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Care and Development
RCU gwreiddiol	HSCCLD432
Galwedigaethau perthnasol	Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
Cyfres/Set	Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu
Geiriau Allweddol	Cefnogi Sgiliau Plant a Phobl Ifanc, Mathemategol, Archwilio, Datrys Problemau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu
